# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Preswyl Cartrefle**

**Cartrefle**
**Ffordd Berthddu**
**Llanrwst**
**LL26 0HG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Preswyl Cartrefle

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Cymru Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 24 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 13/4/2021 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r staff gofal yn garedig, yn ofalgar ac yn siarad yn gynnes am y bobl y maent yn darparu gofal a chymorth iddynt. Maent yn gweithio'n dda fel tîm ac yn teimlo y cânt eu cefnogi gan y rheolwr. Mae gan y staff a'r preswylwyr gydberthnasau cadarnhaol ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant ac yn deall anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r darparwr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda ac yn gweithio tuag at sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn dda. Mae'r ddogfennaeth gofal yn drwyadl a chadarn, a chaiff pobl weld gweithwyr iechyd proffesiynol pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r gweithgareddau yn ddiddorol, yn amrywiol, ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn hybu llesiant corfforol ac emosiynol y bobl.

Mae ansawdd y bwyd yn dda ac mae dewisiadau o fwydlen yn cael eu cynnig. Mae'r cartref yn gyfforddus, yn gynnes ac yn lân ac mae ystafelloedd y bobl wedi'u personoli yn unol â'u chwaeth. Mae'r rheolwr ar gael ac yn hygyrch y rhan fwyaf o'r diwrnodau felly mae'r staff a'r bobl yn y gwasanaeth yn teimlo y gallant siarad ag ef ar unrhyw adeg. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth, ac mae systemau archwilio ansawdd da ar waith. Mae ystyriaeth wrthi'n cael ei rhoi i lefelau staffio yn ystod cyfnodau prysur, a sicrhau bod yr amgylchedd yn ysgogol i'r bobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r gwasanaeth yn darparu'r ‘cynnig rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg.

## Llesiant

Mae’r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod, ac mae trefniadau da ar waith i amddiffyn y bobl. Gofynnir am awdurdodiadau trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid ar gyfer y bobl nad oes ganddynt alluedd i wneud penderfyniadau mewn meysydd penodol o'u bywydau. Mae diogelu'r bobl rhag camdriniaeth yn faes hyfforddiant craidd i'r staff, ac mae'r staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae polisi a gweithdrefn diogelu ar waith i'r staff eu dilyn, ac mae hefyd yn cael ei arddangos yn ardal y dderbynfa. Mae asesiadau risg ar waith er mwyn helpu'r bobl i fyw fel y dymunant wneud, gan leihau'r achosion posibl o niwed. Mae'r cofnodion recriwtio yn cadarnhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal i sicrhau bod y bobl yn addas i weithio yn y cartref. Gall y bobl fanteisio ar wasanaethau eirioli annibynnol ac mae'r manylion yn cael eu harddangos yn ardal y dderbynfa.

Caiff y bobl eu hannog i siarad a mynegi eu hunain, i wneud dewisiadau a lleisio eu barn am y ffordd y caiff y cartref ei redeg. Mae'r bobl yn gwneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei fwyta a lle yr hoffent fwyta eu prydau. Caiff gwybodaeth ei choladu gan y bobl a'u perthnasu, felly mae'r aelodau o staff yn gwybod am eu dewisiadau unigol, eu diddordebau blaenorol, a'r hyn sydd o bwys iddynt fwyaf. Caiff cyfarfodydd preswylwyr a pherthnasau rheolaidd eu cynnal, ac mae bwrdd 'Dywedoch Chi Gwnaethon Ni' yn cael ei arddangos yn ardal y dderbynfa'. Mae’r bobl a'u cynrychiolydd yn cael eu hannog i ymwneud â'u cynlluniau personol. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl siarad ag eraill yn eu dewis iaith. Gwnaethom glywed y staff yn siarad Cymraeg â'r bobl ar sawl achlysur drwy gydol y dydd.

Mae'r bobl yn cael cymorth gyda'u hiechyd corfforol a meddyliol, a'u llesiant emosiynol a chymdeithasol. Caiff llesiant y bobl ei fonitro, a chaiff cyngor proffesiynol ei geisio os bydd unrhyw bryderon, fel na chaiff iechyd a lles y bobl eu hesgeuluso. Mae swyddog gweithgareddau dynodedig wedi'i gyflogi sy'n trefnu gweithgareddau ar gyfer y bobl os byddant eisiau cymryd rhan, er enghraifft pan telynores ac ymweliad gan 'Millie' y ci. Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys paentio lluniau o fannau lleol, mynd am dro yn yr ardd, a gwneud collage. Dathlodd y bobl Ddydd Sant Ffolant, pan wnaethant addurniadau a bisgedi calon.

Mae cynllun yr adeilad yn sicrhau bod digon o le ar gyfer amrywiaeth o anghenion. Mae'r cartref yn groesawgar ac yn gyfforddus. Mae llawr newydd wedi cael ei osod ar y llawr gwaelod ac mae cynlluniau ar waith i wella rhai ardaloedd ymhellach. Mae pob ystafell wely wedi cael ei phersonoli gyda ffotograffau a phethau eraill sydd o bwys i'r bobl. Mae ystafelloedd ymolchi a chawod ar gael wedi'u cynllunio i'r bobl eu defnyddio'n rhwydd ac yn ddiogel. Mae'r canllawiau cydio a'r cymhorthion symudedd yn helpu'r bobl i symud o gwmpas y cartref yn annibynnol. Mae iard gaeedig yn yr awyr agored gydag ardaloedd eistedd a photiau plannu uchel i'r bobl eu mwynhau.

## Gofal a Chymorth

Caiff anghenion gofal a chymorth y bobl eu nodi mewn cynllun gofal sy'n cynnwys proffil personol. Mae hwn yn nodi beth sy'n bwysig i'r person, sut i'w cefnogi orau, beth maent yn mwynhau ei wneud nawr a beth yr hoffent ei wneud yn y dyfodol. Mae'r cynlluniau personol yn gyfredol ac yn fanwl. Mae'r cynlluniau wedi'u hategu gan asesiadau risg, sy'n dangos yr hyn sydd angen ei wneud i leihau unrhyw risgiau, gan hybu annibyniaeth ar yr un pryd. Mae cofnodion gofal dyddiol yn cael eu cadw er mwyn dangos bod y gofal a'r cymorth yn cael eu darparu yn unol â chynlluniau'r bobl. Mae gan bob person weithiwr allweddol sy'n adolygu cynnydd a llesiant cyffredinol y bobl yn barhaus gyda nhw.

Mae'r bobl yn fodlon ac yn cael budd o ryngweithio cadarnhaol â'r staff. Mae'r staff yn gyfeillgar, yn ofalgar ac yn garedig iawn ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r bobl. Gwelsom gyfnodau o amser yn y boreau lle roedd y staff yn brysur wrth iddynt ddiwallu anghenion gofal y bobl, a oedd yn golygu bod y bobl yn y lolfeydd yn cael eu gadael heb oruchwyliaeth am gyfnodau hir o amser. Gwelsom fod hyn yn arwain at ddiffyg rhyngweithio, ac felly nid oedd llesiant y bobl yn cael ei wella. I'r gwrthwyneb, roedd chwerthin a llawer o weithgarwch cadarnhaol i'w gael yn ystod amser cinio a'r prynhawn.

Caiff llesiant corfforol y bobl ei fonitro a gallant gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd cymunedol. Caiff y bobl eu hatgyfeirio at ymarferwyr cyffredinol a chânt ofal nyrsio gan wasanaethau cymunedol.  Mae archwiliad o'r feddyginiaeth wedi cael ei gwblhau gan y fferyllfa sy'n cyflenwi iddynt er mwyn hybu arferion da. Caiff deiet a phwysau'r bobl ei fonitro. Mae bwydlen amrywiol sy'n llawn prydau cartref, a dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi mwynhau'r pryd o fwyd roeddent newydd ei fwyta. Roedd y pryd o fwyd y gwnaethom ei weld yn cael ei weini wedi'i gyflwyno'n dda ac yn ddogn hael.

Mae'r bobl yn derbyn cymorth a gofal amserol mewn ffordd sy'n hybu urddas. Mae'r gweithwyr gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac urddas, a gwelsom y gweithwyr gofal yn mynd at y bobl mewn ffordd barchus. Gwnaethom glywed y staff yn defnyddio tôn llais llawn parch wrth siarad â'r bobl, a gwelsom eu bod yn helpu'r bobl mewn ffordd addfwyn. Mae'r bobl wedi gwisgo mewn dillad sydd wedi'u golchi'n ffres, a chaiff sylw ei roi i ymddangosiad personol, megis eu gwallt a gofal eu hewinedd. Gwelsom y gweithwyr gofal yn rhoi sylw i'r bobl ac yn ymateb yn gyflym i unrhyw gais am help. Gwnaethom nodi fod ymateb cyflym i'r clychau galw drwy gydol ein hymweliad. Gwelsom y staff yn mynd at y bobl mewn ffordd hamddenol, ac er ei bod yn brysur, nid oeddent yn brysio'r bobl.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael budd o fyw mewn cartref sy'n cefnogi eu canlyniadau personol, ond gellid gwneud gwelliannau pellach. Mae angen rhoi mwy o ystyriaeth i greu amgylchedd sy'n gyfeillgar i ddementia yn y lolfeydd a'r ardaloedd bwyta, am nad ydynt yn ysgogol iawn ac mae diffyg ardaloedd o ddiddordeb i'r bobl sydd â dementia. Mae'r darparwr wrthi'n ymgynghori ag arweinydd dementia'r sefydliad ar hyn o bryd er mwyn gwella'r ardaloedd cymunedol, a chreu amgylchedd gwell, sy'n fwy ysgogol i bobl â dementia. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gyda ffotograffau, eitemau cofiadwy, ac eitemau o ddodrefn bach sy'n eu helpu i greu ymdeimlad o gartref. Mae unigolyn cynnal a chadw wedi cael ei gyflogi i wneud unrhyw waith cyffredinol ac mae'r tîm ystadau yn gweithredu ar geisiadau am waith arall sydd ei angen. Maent wedi buddsoddi mewn llawr newydd y gellir ei olchi ar y llawr gwaelod isaf, ac mae cynlluniau ar waith i addurno ardaloedd yn y cartref. Mae cymhorthion dwyieithog gweledol o amgylch y cartref yn ogystal â chiplun o'r person yn cael ei arddangos y tu allan i'w hystafell er mwyn helpu'r person sydd â phroblemau cofio pethau i symud o gwmpas.

Mae'r bobl yn ddiogel rhag dieithriaid yn dod i mewn i'r adeilad. Nid oeddem yn gallu mynd i mewn i'r adeilad heb ganu'r gloch, a daeth aelod o'r staff i'r drws. Gofynnwyd i ni am brawf adnabod a chawsom ein hannog i lofnodi a nodi ein hamser cyrraedd a gadael yn y llyfr ymwelwyr. Caiff gwybodaeth gyfrinachol y bobl ei chadw'n ddiogel. Mae'r gwaith gwasanaethu gofynnol wedi'i gynnal ar y dyfeisiau a'r cyfarpar. Roedd hyn yn cynnwys cynnal a chadw cyfarpar diogelwch tân a chyfarpar codi a symud, yn ogystal â dyfeisiau trydanol a nwy. Mae pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant tân ac mae'r cofnod hyfforddiant yn cadarnhau hyn. Dyfarnwyd Sgôr Hylendid Bwyd o 5 (da iawn) i'r cartref.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau a phrosesau da ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r rheolwr ac yn ymweld â'r cartref. Mae adroddiad cynhwysfawr ffurfiol wedi cael ei gwblhau lle casglwyd adborth gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn ogystal â'r staff a'r ymwelwyr. Mae'r meysydd y gwnaethom eu nodi yn ystod yr arolygiad, megis lefelau staffio a'r dyrannu staff, a'r amgylchedd, wedi cael eu nodi ac mae systemau sicrhau ansawdd wedi cael eu rhoi ar waith. Caiff yr archwiliadau mewnol misol eu cwblhau gan y cartref a'r rheolwyr rhanbarthol, a chaiff unrhyw gamau gweithredu eu hychwanegu at y cynllun datblygu cartref (HDP). Mae'r HDP yn ddogfen fyw sy'n cael ei diweddaru bob wythnos, ac yn cael ei rhannu â'r rheolwr rhanbarthol, yr Unigolyn Cyfrifol, a'r tîm ansawdd sy'n monitro unrhyw gynnydd. Mae polisi drws agored ar waith, a bydd cyfarfod staff a chyfarfodydd perthynas/preswylydd rheolaidd yn cael eu cynnal. Gall y staff gael gafael ar y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n rhoi cyfarwyddyd ac arweiniad i'r staff, a chânt eu cadw'n gyfredol.

Mae'r staff yn cael hyfforddiant sy'n amrywiol, gan gynnwys cyrsiau arbenigol er mwyn helpu i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn well. Gall y bobl fod yn hyderus fod pob aelod newydd o staff wedi cael ei wirio'n llawn ac wedi mynd drwy'r broses fetio cyn dechrau ei rôl. Mae aelodau newydd o staff a'r staff asiantaeth yn cwblhau rhaglen sefydlu. Mae hyn yn cynnwys cysgodi'r aelodau profiadol o staff. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a chraidd parhaus, ac wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru er mwyn cadw'r bobl yn ddiogel. Ni chaiff y sesiynau goruchwylio staff gofal eu cwblhau o fewn yr amserlen ofynnol bob amser. Mae hyn wedi cael ei nodi gan y tîm rheoli sicrhau ansawdd, ac mae cynllun ar waith i'w gwblhau erbyn diwedd Mawrth 2024. Mae'r staff yn cefnogi ei gilydd ac yn canmol y cymorth y maent yn ei gael gan y tîm rheoli.

Mae'r lefelau staffio wrthi'n cael eu hadolygu, ac yn cael eu monitro gan y rheolwyr rhanbarthol. Gwnaethom nodi fod prinder staff yn goruchwylio ym mhrif ardaloedd cymunedol y cartref yn ystod y cyfnodau prysur fel y boreau. Cawsom ymatebion cymysg gan y staff, dywedodd rhai bod digon o staff ar gael, a dywedodd eraill nad hynny oedd yr achos. Mae'r darparwr wrthi'n defnyddio adnodd asesu annibyniaeth i asesu'r lefelau staffio ar hyn o bryd, ac yn cwblhau asesiadau o anghenion y bobl. Rhoddodd sicrwydd hefyd y byddai camau yn cael eu cymryd i ymdrin ag unrhyw ddiffygion os bydd rhai i'w gweld yn y lefelau staffio. Clywsom y clychau galw yn cael eu hateb yn gyflym ac roedd y bobl yn cael eu prydau bwyd a'u diodydd mewn modd amserol.

Mae darparwr y gwasanaeth yn cynnal cyllideb sy'n benodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, uwchraddio, ac atgyweirio parhaus y cartref. Gwelsom dystiolaeth fod buddsoddiad parhaus ymhob rhan o'r gwasanaeth, o ffabrig yr adeilad i ddatblygu staff. Mae'r gwasanaeth ar y cyfan yn gynaliadwy yn ariannol, a chaiff cyllidebau eu monitro drwy gyfarfodydd misol y tîm rheoli.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 04/04/2024